


ICVA
The Independent Custody Visiting Association

# CYMDEITHAS YMWELWYR ANNIBYNNOL Â DALFEYDD

CRYNODEB O ADRODDIAD BLYNYDDOL 2019/20

WWW.ICVA.ORG.UK

npm
national preventive mechanism

# Neges gan y Cadeirydd



**Mae dalfeydd yr** heddlu yn rhan bwysig ac angenrheidiol o'r system cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, mae bod yn y ddalfa yn golygu bod unigolyn yn colli ei ryddid a gall y ffordd y caiff ei drin yn y ddalfa effeithio'n fawr ar ei fywyd. Bydd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn darparu goruchwyliaeth gymunedol hanfodol o'r maes plismona nas gwelir yn aml a ble ceir llawer o bwysau.

**Roeddwn yn falch iawn ein bod wedi gallu dechrau 2019/20 gyda digwyddiad i ddathlu'r ffordd y bu i gynlluniau ymwelwyr annibynnol â dalfeydd adolygu a chryfhau eu gwaith drwy gymryd rhan yn y Fframwaith Sicrhau Ansawdd. Daeth Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, rheolwyr cynlluniau a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu at ei gilydd i wrando ar y Swyddfa Gartref a'r Arglwydd Anderson yn dathlu eu gwaith ac yn diolch iddynt am eu gwaith.**

Roeddem hefyd yn falch o weld canlyniadau ymgyrch ICVA i gryfhau gofal mislif yn dod yn gyfraith fel rhan o ddiwygio Cod C a H Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE). Pan ddywedodd Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd wrthym nad oedd modd i garcharorion gael mynediad at y gofal sydd ei angen arnynt, gweithiodd ICVA gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, y Swyddfa Gartref, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ac eraill i gynllunio safonau newydd a'u rhoi ar waith er mwyn diogelu urddas pob carcharor. Mae'r safonau hyn yn sicrhau'n benodol na fydd carcharorion benywaidd heb gynhyrchion mislif pan fydd eu hangen arnynt.

Gweithiodd Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd a rheolwyr y cynllun ar draws chwe chynllyn yn ddiflino i dreialu methodolegau newydd. Mabwysiadodd Dyfed-Powys, Swydd Gaerloyw, Glannau Humber, Swydd Gaerlŷr a Swydd Nottingham y fethodoleg newydd, wedi'i chynllunio gan Swydd Derby, sy'n anelu at atgyfnerthu ac ychwanegu at y gwaith gwych a wneir gan Ymwelwyr Annibynnol. Byddwn yn clywed beth yw canlyniadau'r cynllun peilot hwn yn 2020/21 ac yn ystyried sut i symud ymlaen er mwyn parhau i wella'r gwasanaethau a ddarperir gan ICVA.

COVID19 ac ymateb y wlad iddo fu prif ffocws wythnosau olaf 2019/20. Roedd yn rhaid i'r ddalfa barhau i weithio tra bod y DU dan gyfyngiadau symud. Addaswyd ystafelloedd y ddalfa er mwyn cadw at reolau newydd cadw pellter cymdeithasol ac iechyd cyhoeddus ac wynebodd yr heddlu heriau digynsail. Mae gwaith monitro annibynnol yn hanfodol yn yr hinsawdd hon. Rwy'n falch bod y cynlluniau Ymwelwyr Annibynnol wedi parhau â'r gwaith monitro yn ystod y cyfnod hwn o newid mawr a chyflym. Parhaodd y cynlluniau i oruchwylio'r ddalfa gan roi adborth i ICVA. Roedd hyn yn ei dro yn galluogi ICVA i roi adborth i gyrff cenedlaethol a'u cynorthwyo i ddylanwadu ar newidiadau yn amgylchedd y ddalfa. Hoffwn gymeradwyo'r cynlluniau a'r gwirfoddolwyr a diolch iddynt am eich gwaith yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'n bleser cyflwyno gwaith ICVA yn yr adroddiad blynyddol hwn ac i weithio gyda'm cyd-gyfarwyddwyr, staff, rheolwyr y cynllun, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a gwirfoddolwyr penodedig.

Martyn Underhill
Cadeirydd
Gorffennaf 2020

# Y FFIGURAU

**1,500**

Nifer yr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, gwirfoddolwyr lleol sy'n ymweld â dalfeydd yr heddlu, yn y DU

**11,400**

Cynhaliwyd mwy nag 11,400 o ymweliadau dirybudd â dalfeydd yr heddlu yn ystod 2019/20

**33,000**

Siaradodd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd â thros 33,000 o garcharorion yn ystod 2019/20, gan eu holi am eu hawliau a'u llesiant

**4%**

Golyga hyn fod Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd wedi goruchwylio'r ffordd y caiff tua 4% o'r holl garcharorion eu trin yn ystod y flwyddyn.

# PRIF GYFLAWNIADAU ICVA

Roedd ICVA yn falch o allu rhannu eu cyflawniadau â chynlluniau ledled y DU. Er mai ICVA sy'n arwain, yn cynorthwyo ac yn cynrychioli cynlluniau, ni fyddai'n gwaith yn bosibl heb ein haelodau gwych



Gweithiodd ICVA gyda chynlluniau yn Swydd Derby, Dyfed-Powys, Swydd Gaerloyw, Glannau Humber, Swydd Gaerlŷr a Swydd Nottingham i dreialu methodolegau newydd, sy'n anelu at gryfhau goruchwyliaeth Ymwelwyr Annibynnol yn y ddalfa ar gyfer carcharorion sy'n agored i niwed, drwy gydol y flwyddyn

**Gwelodd ICVA ganlyniadau'r ymgyrch i wella gofal mislif yn cael eu gwireddu a daeth y broses o ddiwygio Cod C PACE i rym ym mis Awst 2019. Gyda diolch i ymgyrch yr Ymwelwyr Annibynnol ac ICVA, mae'n rhaid cymryd camau pendant i gynnig cynhyrchion mislif i garcharorion, defnyddio'r toiledau yn breifat a chadw urddas.**

Llwyddodd ffocws blynyddol ICVA ar gadw urddas carcharorion i ysbrydoli a chychwyn ar y gwaith o gadw urddas yn nalfeydd yr heddlu.







IMae ICVA yn darparu cymorth i gynlluniau, yn darparu cynhadledd i reolwyr y cynllun ac yn darparu modiwlau dysgu o bell ar sicrhau bod yr heddlu yn ystyried cynllun sefydlu i reolwyr newydd y cynllun.

# DULL ATALIOL CENEDLAETHOL Y DU (UKNPM)

**Mae'r ICVA yn**
aelod o'r UKNPM. Sefydlwyd yr UKNPM ym mis Mawrth 2009 ar ôl i'r DU gadarnhau Protocol Dewisol y Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol arall (OPCAT) ym mis Rhagfyr 2003. Mae'n cynnwys 21 o gyrff statudol sy'n monitro dalfeydd yn annibynnol, ac ymysg y rhai sy'n cwmpasu dalfeydd yr heddlu mae:

- ICVA
- Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Yr Alban
- Cynllun Ymweld â Dalfeydd yn Annibynnol Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon
- Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yr Alban
- Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
- Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yr Alban
- Arolygydd Annibynnol y Ddeddfwriaeth Terfysgaeth

Sefydlwyd y Dull
Atal Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod ymweliadau â dalfeydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd i atal arteithio a chamdriniaeth arall, fel sy'n ofynnol gan OPCAT. Mae OPCAT yn cydnabod bod pobl yn y ddalfa yn agored iawn i niwed ac yn gofyn i wladwriaethau sefydlu corff cenedlaethol sy'n gallu cefnogi'r ymdrechion i atal camdriniaeth. Mae'n rhaid i'r NPOM feddu ar y pwerau canlynol o leiaf:

- Archwilio'n rheolaidd y ffordd y caiff person sydd wedi'i amddifadu o'i ryddid ei drin ym mhob dalfa o dan awdurdodaeth a rheolaeth y DU; Gwneud argymhellion i'r awdurdodau perthnasol gyda'r nod o wella'r ffordd y caiff person sydd wedi'i amddifadu o'i ryddid ei drin a'r amodau y caiff ei gadw ynddynt; a
- Chyflwyno cynigion ac arsylwadau ar ddeddfwriaeth bresennol neu ddeddfwriaeth ddrafft.

Roedd Prif Weithredwr ICVA yn aelod o grŵp llywio UKNPM drwy gydol 2019/20, a chymerodd Prif Swyddog Gweithredu ICVA yr awenau fel cadeirydd yr is-grŵp plismona. Mae ICVA yn cyfrannu'n rheolaidd at waith thematig UKNPM gan gynnwys ymateb i bwyllgorau rhyngwladol ar atal arteithio.

https://www.nationalpreventivemechanism.org.uk/

# EFFAITH ICVS

## URDDAS

Mae'r Ymwelwyr Annibynnol wedi pwyso am wella urddas sy'n golygu bod gwell dillad, bwyd, eitemau crefyddol ac eitemau i dynnu sylw ar gael i garcharorion tra byddant yn y ddalfa.

## AMODAU

Gwelodd yr Ymwelwyr Annibynnol amodau ffisegol gwael mewn dalfeydd gan greu gwelliannau megis paneli sŵn, gwell mynediad at ystafelloedd y ddalfa a'u cynnal a'u cadw'n well.

## DIOGELU

Mae'r Ymwelwyr Annibynnol wedi rhoi adborth pan nad oedd carcharorion yn manteisio ar gamau diogelu, megis Oedolion Priodol, yn amserol. Arweiniodd hyn at graffu parhaus neu newidiadau lleol a gwelliannau i'r broses.

## Y BROSES

Rhoddodd yr Ymwelwyr Annibynnol adborth pan welsant gamgymeriadau mewn prosesau pwysig megis adolygiadau. Llwyddodd hyn i sbarduno gwelliannau lleol er mwyn sicrhau bod dalfeydd yn cael eu rhedeg yn deg ac yn ddiogel.